

**RHIF ADNABOD:**Dewis iaith: Cymraeg Saesneg

CANOLFAN HAMDDEN:

Ffurflen gais - Cerdyn Hamdden am Oes

Cewch brynu aelodaeth ar-lein ar www.rctcbc.gov.uk/aelodaethhamdden neu drwy'r **ap Hamdden am Oes**.

Llenwch y ffurflen gais yma a'i chyflwyno hi i'r dderbynta ynghyd â'ch taliad cyntaf. Ysgrifennwch yn dwt, gan ddefnyddio **pen du a PHRIFLYTHRENAU**.

Cyfenw: Enwau Cyntaf: Teitl:

Ebost:

Dyddiad Geni: Cyfeiriad:

..... Cod Post:

Ffôn (dydd): Ffôn (hwyr): Ffôn Symudol:

Marchnata

 Ticiwch yma pe hoffech chi gael cyfle i gadw lle ar-lein (bydd angen mynediad i e-byst/i'r we arnoch chi)Hoffech chi wybodaeth am: Gweithgareddau Dŵr Parïon Plant Iechyd a Ffitrwydd Gweithgareddau ChwaraeonDrwy: E-bost Y Post Neges Destun Y Cyfryngau Cymdeithasol Galwad Ffôn

f Ar gyfer y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'ch canolfan hamdden leol, chwilio a/neu 'hoffi' tudalen Facebook 'Rhondda Cynon Taf Leisure Services' neu dudalen Facebook eich canolfan hamdden berthnasol chi.

Aelodaeth Hamdden am Oes (Ticiwch un bocs i gadarnhau).

Manteisiwch ar ystod eang o weithgareddau heb gyfyngiad gan gynnwys campfeydd neu stiwdios dosbarthiadau cadw'n heini, nofio gan gynnwys gwersi nofio (un wers yn rhan o gylch bob wythnos), campau raced ac ystod o weithgareddau eraill yn ystod oriau agor (os byddan nhw ar gael) gyda cherdyn **Hamdden am Oes**.

PRIS LLAWN: (a) £370 taliad ymlaen llaw (aelodaeth 12 mis am bris 10 mis) (b) £37 y mis trwy Ddebyd Uniongyrchol* (aelodaeth benodol - 12 taliad misol) (c) £41.40 y mis trwy Ddebyd Uniongyrchol* (aelodaeth amhenodol) (ch) £48.65 y mis talu ag arian parod**PRISIAU GOSTYNGOL:** (a) £230 taliad ymlaen llaw (aelodaeth 12 mis am bris 10 mis) (b) £23 y mis trwy Ddebyd Uniongyrchol* (aelodaeth benodol - 12 taliad misol) (c) £25.65 y mis trwy Ddebyd Uniongyrchol* (aelodaeth amhenodol) (ch) £30 y mis talu ag arian parod

Aelodaeth Benodol: Cyfnod o 12 mis yw hon. Cytunwyd ymlaen llaw, felly, fod taliadau Debyd Uniongyrchol yn cael eu tynnu dros gyfnod blwyddyn yr aelodaeth.

Aelodaeth Amhenodol: Aelodaeth sydd heb gyfnod o flwyddyn yw hon. Yn hytrach, mae'r aelodaeth yn treiglo pob mis, ac mae hawl gan gwsmeriaid ganslo unrhyw bryd.

*Ar gyfer trefniant Debyd Uniongyrchol, rhaid gwneud y taliad cyntaf (pro rata) ag arian parod, cerdyn debyd/credyd neu siec.

Caiff y taliad debyd uniongyrchol cyntaf ei gymryd ar y 1af o'r mis canlynol ac ar y 1af o bob mis wedi hynny tan i'r aelodaeth ddod i ben.

Darllenwch y telerau ac amodau sy'n perthyn i'r aelodaeth (dros y dudalen), CYN i chi lofnodi a dod yn aelod.

Rydw i wedi darllen telerau ac amodau cynllun Hamdden am Oes dros y dudalen, ac rwy'n eu deal ac yn cytuno i'w parchu.

Llofnod y ceisydd: Dyddiad:

Llofnod y rhiant/gwarcheidwad (os yw'n berthnasol):

Prisiau Gostyngol - Hamdden am Oes

Ydych chi'n perthyn i un o'r grwpiau yma?

Os ydych chi, bydd gostyngiadau dim ond ar gael pan fyddwch chi'n cyflwyno'r dogfennau priodol. Gweler isod.

	Hyd	Bydd gofyn i ni gael gweld	SWYDDFA YN UNIG Tystiolaeth*
<input type="checkbox"/> Rydw i dan 16 oed	Dibynnod ar oedran	Tystysgrif Geni neu Drwydded Deithio (i ddibenion cadarnhau manylion)	
<input type="checkbox"/> Rydw i dros 60 oed	Am byth	Prawf o'ch oedran; Tystysgrif Geni neu Drwydded Deithio	
<input type="checkbox"/> Rwy'n fyfyrwr llawn amser	12 mis	Llythyr swyddogol gan yr ysgol neu'r coleg neu gerdyn adnabod y brifysgol sy'n nodi eich bod yn derbyn addysg llawn amser	
<input type="checkbox"/> Cynhaliwr Gwirfoddol sydd wedi'i gofrestru	12 mis	Llythyr cyfredol oddi wrth adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor RhCT	
<input type="checkbox"/> Cyfraniad Lwfans Ceisio Gwaith / Y Fargen Newydd	12 mis	Llythyr hysbysu oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	
<input type="checkbox"/> Lwfans Anabledd Difrifol / Lwfans Gofalwr / Elfen Ofal Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gweini / Budd-dal Analluogrwydd / Lwfans Gofal Analluedd / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth / Taliadau Annibyniaeth Bersonol	12 mis	Llythyr diweddaraf oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	
<input type="checkbox"/> Cymhorthdal Incwm	12 mis	Llythyr diweddaraf oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	
<input type="checkbox"/> Budd-dal Tai	12 mis	Llythyr diweddaraf oddi wrth yr Awdurdod lleol	
<input type="checkbox"/> Credyd Treth Gwaith – gyda thystysgrif eithrio taliadau iechyd	12 mis	Llythyr diweddaraf oddi wrth y GIG ynghyd â llythyr hysbysu oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	
<input type="checkbox"/> Credyd Cynhwysol	12 mis	Llythyr hysbysu diweddaraf oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	

* Llofnod staff

Lluoedd Arfog - Hamdden am Oes

Rhaid cyflwyno'r canlynol i gael aelodaeth am ddim:

	Hyd	Bydd gofyn i ni gael gweld	SWYDDFA YN UNIG Tystiolaeth*
<input type="checkbox"/> Rydw i'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog (Parhaol/Rheolaidd, Wrth-gefn)	12 mis	Cerdyn Adnabod y Lluoedd Arfog	
<input type="checkbox"/> Mynediad Nofio Am Ddim yn unig	12 mis	Cerdyn gostyngiadau y Lluoedd Arfog	

* Llofnod staff

Telerau ac Amodau Cynllun Aelodaeth Hamdden am Oes

Diolch yn fawr i chi am ddewis dod yn aelod o'n Cynllun Aelodaeth **Hamdden am Oes**. Mae'r ddogfen hon yn ymgorffori'r telerau ac amodau sy'n effeithio ar y Cynllun.

Diffiniadau

- Mae cyfeiriadau at 'ni', 'ein', neu ffurf dreigladau ohonynt, yn gyfeiriadau at Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRrHCT). Mae cyfeiriadau at 'chi', 'eich', neu ffurf dreigladau ohonynt, yn gyfeiriadau at yr unigolyn sy'n llenwi'r Ffurflen Gais.
- Ystyr 'Y Cytundeb' yw'r cytundeb aelodaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun a ymrwymwyd iddo rhyngoch chi a ni, sy'n ymgorffori'r Ffurflen Gais a'r Telerau ac Amodau hyn.
- Ystyr 'Y Ffurflen Gais' yw'r ffurflen gais wedi'i llenwi gennych chi ymlaen llaw cyn dod yn aelod o'r Cynllun.
- Ystyr 'Y Cynllun' yw Cynllun Aelodaeth **Hamdden am Oes** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n cynnig i chi fuddion a gostyngiadau a gynigiwn ni yn ein Canolfannau Hamdden.
- Ystyr 'Y Costau Aelodaeth' yw'r cyfanswm i'w gasglu ar sail barhaol, naill ai bob mis neu bob blwyddyn. Mae'r taliad i'w wneud naill ai ymlaen llaw ar ddechrau cyfnod yr aelodaeth, neu drwy randaliadau misol ar ddiwrnod cyntaf pob mis (hyn dim ond mewn perthynas â'r aelodaeth cyfnod penodol drwy 12 taliad Debyd Uniongyrchol misol yn unig).

Manylion y Cynllun Aelodaeth

- Rydych chi'n cytuno i ymrwymo i'r Cytundeb.
- Bydd y swm sy'n daladwy fesul pob mis o dan y cynllun yn sefydlog dros gyfnod y Cytundeb.
- Rydym ni'n cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth o'r Cynllun.
- Rhaid i gyfnod y Cytundeb rhyngoch chi a ni fod am naill ai un mis neu 12 mis, gan ddbynnau ar hyd yr aelodaeth a'r dull talu a ddewiswch.
- Bydd pob un o'r holl aelodaethau drwy ddebyd uniongyrchol yn gofyn am daliad ymlaen llaw pro rata ar gyfer y mis penodol hwnnw er mwyn sefydlu'r aelodaeth i gychwyn i chi'ch hun.
- Cymerir taliadau debyd uniongyrchol ar gyfer yr aelodaeth cyfnod amhenodol dreigl fisol, ac ar gyfer yr aelodaeth cyfnod penodol 12 mis, fel ei gilydd ar ddiwrnod cyntaf pob mis calendr, neu yn fuan wedi hynny. Telir aelodaeth 12 mis ymlaen llaw ac aelodaethau misol drwy daliad arian parod drwy dalu naill ai ag arian parod, neu â cherdyn, neu â siec ar ddechrau cyfnod y cytundeb aelodaeth.
- Mae'n bosibl y bydd pris aelodaeth yn newid o dro i dro yn unol â threfniadau adolygu ffioedd a chostau yr Awdurdod.
- Mewn amgylchiadau eithriadol (megis newid sylweddol annisgwyl mewn amgylchiadau personol, anaf neu salwch/afiechyd a fyddai'n cyfyngu ar eich gallu i ddefnyddio'r cyfleusterau), byddwn ni'n caniatáu dirymu'r cytundeb aelodaeth yn gynnar cyn diwedd y cyfnod sydd wedi'i gytuno. Rhaid i bob un o'r holl geisiadau am ddirymu yn gynnar fod mewn ysgrifen, ac fe gaiff pob cais unigol ei ystyried fesul achos. Fe gaiff unrhyw daliad sydd wedi'i wneud ymlaen llaw ar gyfer cyfnod yr aelodaeth ei ad-dalu ar sail pro rata.
- Rydych chi'n cytuno i gydymffurfio â phob un o holl bolisiau, rheolau, rheoliadau, a gweithdrefnau ein Canolfannau Hamdden.

Aelodaeth o'r Cynllun

- Byddwch chi, fel un o aelodau'r Cynllun, yn derbyn cerdyn **Hamdden am Oes**. Mae'r cerdyn **Hamdden am Oes** yn ddilys trwy gydol y Cytundeb, ac nid yw'n drosglwyddadwy.
- Drwy gofrestru'n aelod o'r cynllun, rydych chi'n addo i ymrwymo i'n Datganiad o Ymrwymiad i lechyd (sydd i'w weld wrth dderbynfeydd ein canolfannau hamdden, ac o'u hamgylch nhw, ac ar ein gwefan.)
- Bydd yn ofynnol i dynnu ffotograff electronig ohonoch ar eich ymweliad cyntaf. Cedwir hwn ar ein system aelodaeth electronig fel rhan o'ch cofnod er mwyn sicrhau nad oes modd i neb arall ond chi yn unig ddefnyddio'r cerdyn, a bod eich aelodaeth chi yn ddiogel.
- Fe gewch ddefnyddio'ch cerdyn **Hamdden am Oes** yn unrhyw un o'n Canolfannau Hamdden yn ystod oriau agor arferol; bydd pob un o'r holl weithgareddau, dosbarthiadau, a chyrisiau yn amodol a ydyn nhw ar gael.

- Ni sy'n darparu'r cerdyn **Hamdden am Oes** ac mae'n eiddo i ni. Mae'ch cerdyn yn dystiolaeth o'ch aelodaeth, a bydd yn ofynnol i chi ddangos y cerdyn ar bob ymweliad er mwyn derbyn buddion yr aelodaeth.
- Yn unol â gweithdrefnau archebu arferol, mae Aelodaeth o'r Cynllun yn rhoi hawl i chi archebu cyfleusterau yn ein Canolfannau Hamdden hyd at saith diwrnod ymlaen llaw, gan ddyfynnu rhif y cerdyn aelodaeth. Neu defnyddiwch eich manylion adnabod a'ch rhif pin drwy'r ap neu'r system cadw lle. Os gwnewch unrhyw archebion gan ddefnyddio'r cerdyn **Hamdden am Oes**, ac os nad ydynt yn cael eu cyflawni, efallai y cewch anfoneb amdanynt, neu codir tâl amdanynt, ar y gyfradd lawn ar gyfer oedolion neu ar gyfer cwrt. Neu, ar y llaw arall, efallai bydd gofyn i chi, deiliad y cerdyn, dalu'r gyfradd lawn ar gyfer dosbarth oedolion neu gwr ar yr ymweliad nesaf. Yr eithriad i hyn yw pan roddir 24 awr o leiaf o rybudd o ganslo archebiad cwrt, ac awr o leiaf o rybudd o ganslo dosbarth, lle na chaiff tâl ei godi ar y deiliad cerdyn.
- Bydd modd i bob un o'r holl ddeiliaid cerdyn **Hamdden am Oes** gyrchu cyfleusterau archebu ar-lein, neu drwy'r ap **Hamdden am Oes**, sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i gyrchu archebion cyrtiau a dosbarthiadau mewn Canolfannau Hamdden; bydd modd archebu'r rhain yn unol â'r breintiau archebu yn y rhestr uchod. Os ydych chi am gyrchu'r cyfleuster hwn, bydd raid i chi gyflwyno cyfeiriad ebost dilys, sydd ynghlwm wrth eich cofnod aelodaeth electronig. Fe gewch yno fanylion adnabod a rhif pin, i'w defnyddio ar-lein neu drwy'r ap Hamdden am Oes (ar gael drwy'r 'App Store').
- Os byddwch chi'n colli neu'n difrodi'ch cerdyn **Hamdden am Oes** bydd modd rhoi cerdyn newydd yn ei le i chi yn unrhyw un o'n Canolfannau Hamdden – bydd angen prawf o bwy ydych chi. Os caiff cardiau eu hamnewid am rai newydd sawl gwaith, efallai bydd raid codi tâl amoch chi.
- Os caiff cerdyn **Hamdden am Oes** ei gollu neu'i ddwyn, yna rhaid i'r deiliad cerdyn roi gwybod i'r Cyngor ar unwaith. Hyd nes bydd hynny'n digwydd, bydd y deiliad cerdyn yn atebol am unrhyw drafodion sydd wedi'u gwneud â'r cerdyn Hamdden am Oes.
- Chaiff cerdyn **Hamdden am Oes** mo'i ddefnyddio ar y cyd ag unrhyw gynigion, ymgyrchoedd hyrwyddo y dichon i ni'u cynnal o bryd i'w gilydd.

Ni ddylid ystyried y telerau ac amodau defnyddio hyn yn rhai cynhwysfawr, ac mae Cyngor Bwrdeistref Siroi Rhondda Cynon Taf yn cadw'r hawl i newid y cyfryw delerau ac amodau fel sy'n rhesymol o bryd i'w gilydd.

Rydym ni'n cadw'r hawl i ddileu neu dynnu'n ôl y Cytundeb, a / neu i atal mynediad i'n Canolfannau Hamdden, os ydyn ni'n canfod eich bod wedi torri unrhyw ran o'r Cytundeb, neu os torrir unrhyw un arall o reoliadau'r Canolfannau Hamdden.

Rydym ni'n cadw'r hawl i ddileu, tynnu'n ôl, neu newid telerau ac amodau'r Cynllun heb roi rhybudd i chi ac yn ôl ein disgrisiwn ni.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn ogystal â rhoi gwybod i chi ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut mae'ch preifatrwydd wedi'i ddiogelu a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, ewch i'n hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer gwasanaethau yma: www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth a thudalennau diogelu data'r Cyngor yma: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.